Rhif: **WG24659**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

Llywodraeth Cymru

# Dogfen Ymgynghori

# Rheoliadau yn unol â darpariaethau Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015

Dyddiad cyhoeddi: **17 Mawrth 2015**
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn **12 Mai 2015**

# Rheoliadau yn unol â darpariaethau Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015

**Trosolwg**

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn am reoliadau arfaethedig yn unol â darpariaethau Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015.

**Sut i ymateb**

Dylid e-bostio/postio ymatebion i'r ymgynghoriad hwn i'r cyfeiriad isod i gyrraedd erbyn **12 Mai 2015** fan hwyraf.

**Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig**

**Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.**

Deddf Addysg Uwch (Cymru) (2015)
http://www.senedd.cynulliad.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=9722

*Bil Addysg Uwch (Cymru): Memorandwm Esboniadol* (2014)
http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-business-fourth-assembly-laid-docs/pri-ld9758-em-e.pdf?langoption=3&ttl=PRI-LD9758-EM%20-%20Bil%20Addysg%20Uwch%20%28Cymru%29%20-%20Memorandwm%20Esboniadol

*Bil Addysg Uwch (Cymru): Bwriad polisi mewn cysylltiad â rheoliadau sydd i'w gwneud o dan y Bil* (2014)
http://www.senedd.cynulliadcymru.org/documents/s27572/Datganiad%20ynglyn%20a%20Bwriad%20Polisi.pdf

**Manylion cysylltu**

I gael rhagor o wybodaeth:
Yr Is-adran Addysg Uwch
Yr Adran Addysg a Sgiliau
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

e-bost: HEDConsultationsMailbox@cymru.gsi.gov.uk

OGL

© Hawlfraint y Goron 2015
WG24659

**Diogelu data**

## Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

# Cynnwys

**Cefndir** **2**

Cyflwyniad 2

Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015 2

Y Rheoliadau 3

Ymgynghori ynglŷn â materion eraill 3

Y cyfnod pontio 4

**Rheoliadau Addysg Uwch (Dynodi Darparwyr Addysg Uwch) (Cymru) 2015** **7**

**Rheoliadau Addysg Uwch (Cyrsiau a Phersonau Cymhwysol) (Cymru) 2015** **9**

**Rheoliadau Addysg Uwch (Cynlluniau Ffioedd a Mynediad) (Cymru) 2015** **11**

**Rheoliadau Addysg Uwch (Cynlluniau Ffioedd a Mynediad) (Hysbysiadau a Chyfarwyddydau) (Cymru) 2015** **13**

**Rheoliadau Addysg Uwch (Symiau) (Cymru) 2015** **16**

**Ymgynghori ynglŷn â materion eraill** **18**

Cefndir 18

Rhan 5 – Cynlluniau ffioedd a mynediad: tynnu cymeradwyaeth yn ôl, etc. 18

Adran 52 – Datganiad ynglŷn â swyddogaethau ymyrryd 22

# Cefndir

## Cyflwyniad

Cyflwynwyd Bil Addysg Uwch (Cymru) i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 19 Mai 2014 ac fe'i pasiwyd ar 27 Ionawr 2015. Daeth yn un o Ddeddfau'r Cynulliad Cenedlaethol ar 12 Mawrth 2015. Mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu gwneud rheoliadau i sicrhau bod y fframwaith rheoleiddio a gaiff ei greu drwy Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015 ("y Ddeddf") yn gallu gweithredu'n effeithiol.

Mae angen pum set o reoliadau i ddechrau:

- Rheoliadau Addysg Uwch (Dynodi Darparwyr Addysg Uwch) (Cymru) 2015
- Rheoliadau Addysg Uwch (Cyrsiau a Phersonau Cymhwysol) (Cymru) 2015
- Rheoliadau Addysg Uwch (Cynlluniau Ffioedd a Mynediad) (Cymru) 2015
- Rheoliadau Addysg Uwch (Cynlluniau Ffioedd a Mynediad) (Hysbysiadau a Chyfarwyddydau) (Cymru) 2015
- Rheoliadau Addysg Uwch (Symiau) (Cymru) 2015.

Bwriedir i'r Rheoliadau hyn ddod i rym ym mis Gorffennaf 2015.

Mae copïau o'r rheoliadau drafft ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru (http://wales.gov.uk/consultations/education/?lang=cy).

## Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015

Mae'r Ddeddf yn creu fframwaith rheoleiddio diwygiedig ar gyfer addysg uwch yng Nghymru. Prif amcanion polisi Llywodraeth Cymru yw:

- sicrhau trefn reoleiddio gadarn a chymesur ar gyfer sefydliadau yng Nghymru y mae eu cyrsiau'n cael eu cefnogi gan grantiau a benthyciadau Llywodraeth Cymru;
- diogelu'r cyfraniad at les y cyhoedd sy'n deillio o gymhorthdal ariannol Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg uwch;
- cynnal ffocws cryf ar fynediad teg at addysg uwch;
- gwarchod a diogelu annibyniaeth a rhyddid academaidd prifysgolion.

Bydd y Ddeddf yn cyflawni'r amcanion hyn drwy:

- sefydlu fframwaith rheoleiddio newydd sy'n berthnasol i bob darparwr addysg uwch yng Nghymru sydd am i'w cyrsiau addysg uwch gael eu dynodi'n awtomatig at ddibenion cymorth i fyfyrwyr;
- sicrhau nad yw'r rheolaethau newydd yn dibynnu ar Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) i ddarparu cyllid i'r sefydliadau a'r darparwyr hynny;
- ei gwneud yn ofynnol i bob darparwr addysg uwch sy'n elwa ar gymhorthdal ariannol Llywodraeth Cymru ar ffurf benthyciadau neu grantiau statudol ar gyfer ffioedd myfyrwyr gael statws elusennol;
- ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr addysg uwch, y mae eu cyrsiau'n cael eu dynodi'n awtomatig at ddibenion cymorth i fyfyrwyr, ymrwymo i hyrwyddo cyfle cyfartal o ran mynediad at addysg uwch;
- adeiladu, hyd y gellir gwneud hynny, ar y system bresennol o reolaethau a sefydlwyd gan CCAUC o dan ei delerau ac amodau cyllido.

## Y Rheoliadau

Mae’r Ddeddf yn rhoi’r pŵer i wneud rheoliadau ar ystod o faterion[1]. Bwriad Llywodraeth Cymru yn y lle cyntaf yw gwneud pum set o Reoliadau. Credir bod angen y rhain er mwyn sicrhau bod y fframwaith rheoleiddio y mae’r Ddeddf yn ei greu’n gallu gweithredu fel y bwriadwyd iddo wneud. Ar hyn o bryd, bwriedir i’r rheoliadau hyn ddod i rym ym mis Gorffennaf 2015.

Mae’r pwerau i wneud rheoliadau sy’n berthnasol i’r pum set o Reoliadau wedi’u crynhoi yn nhabl 1. Trafodir y rhain yn fwy manwl hefyd yn yr adrannau a ganlyn.

## Ymgynghori ynglŷn â materion eraill

Nid yw Gweinidogion Cymru’n bwriadu gwneud rheoliadau ym mis Gorffennaf 2015 am yr holl faterion sy’n dod o dan y Ddeddf. Yn Nhabl 2, rhestrir y meysydd hynny y mae Gweinidogion Cymru’n bwriadu ymgysylltu yn eu cylch cyn penderfynu a ddylid gwneud rheoliadau, ac, os dylid, beth fyddai’r rheoliadau hynny’n debygol o’i gynnwys. Bydd y materion hyn yn cael eu trafod yn fwy manwl yn yr adrannau a ganlyn.

[1] Trafodir y rhain yn eithaf manwl yn Natganiad o Fwriad Polisi Bil Addysg Uwch (Cymru).

## Y cyfnod pontio

Mae adran 58 (a Rhan 2 o’r Atodlen) o’r Ddeddf yn cyfeirio at gyfnod pontio. Daw’r cyfnod hwn i ben ar 31 Awst 2017. Mae’n bosibl y bydd y ffordd y bydd y rheoliadau’n gweithio yn ystod y cyfnod pontio’n cael effaith ychydig yn wahanol i’r effaith a gânt pan ddaw’r cyfnod hwnnw i ben. Tynnwyd sylw at unrhyw wahaniaeth o bwys.

Tabl 1: Pwrpas y Rheoliadau

Rheoliadau Addysg Uwch (Dynodi Darparwyr Addysg Uwch) (Cymru) 2015

| Deddf[2] | Yn ymwneud â | Pwrpas |
|---|---|---|
| 3(4) | Dynodi darparwyr addysg uwch eraill | Galluogi dynodi darparwr addysg uwch elusennol yng Nghymru yn ‘sefydliad’ at ddibenion y Ddeddf yn yr achosion hynny lle na fyddai darparwr fel rheol yn cael ei ystyried yn sefydliad. |

Rheoliadau Addysg Uwch (Cyrsiau a Phersonau Cymhwysol) (Cymru) 2015

| Deddf | Yn ymwneud â | Pwrpas |
|---|---|---|
| 5(5) | Disgrifio ‘personau cymhwysol’ | Pennu categorïau o bersonau a fydd yn ‘bersonau cymhwysol at ddibenion y terfyn ffioedd. |

Rheoliadau Addysg Uwch (Cynlluniau Ffioedd a Mynediad) (Cymru) 2015

| Deddf | Yn ymwneud â | Pwrpas |
|---|---|---|
| 2(4) | Gwneud cais am gymeradwyaeth i gynllun ffioedd a mynediad | Dweud yn benodol pa wybodaeth a dogfennau y bydd angen i sefydliadau sy’n gwneud cais am gymeradwyo’u cynllun ffioedd a mynediad ei rhoi i CCAUC. |
| 6(1) | Hybu cyfle cyfartal ac addysg uwch | Dweud yn benodol pa wybodaeth am hybu cyfle cyfartal ac addysg uwch y mae’n rhaid i gynllun ffioedd |

[2] Mae’r rhifau’n cyfeirio at adrannau’r Ddeddf.

| | | |
|---|---|---|
| | | a mynediad ei chynnwys. |
| 7(3) | Cymeradwyo neu wrthod cynllun ffioedd a mynediad | Dweud yn benodol y materion sydd i'w hystyried gan CCAUC wrth benderfynu a ddylid cymeradwyo neu wrthod cais am gynllun ffioedd a mynediad. |
| 8(1) | Cyhoeddi cynllun a gymeradwywyd | Dweud sut a pha bryd y mae'n rhaid i sefydliad rheoleiddiedig gyhoeddi cynllun ffioedd a mynediad a gymeradwywyd. |
| 9(1) | Amrywio cynllun a gymeradwywyd | Galluogi sefydliad rheoleiddiedig i amrywio cynllun ffioedd a mynediad y cytunwyd arno eisoes. Mae'r rheoliadau'n disgrifio'r broses ar gyfer amrywio, ac yn dweud na cheir rhoi'r amrywiad ei roi ar waith nes iddo gael ei gymeradwyo gan CCAUC. |

## Rheoliadau Addysg Uwch (Cynlluniau Ffioedd a Mynediad) (Hysbysiadau a Chyfarwyddydau) (Cymru) 2015

| **Deddf** | **Yn Ymwneud â** | **Pwrpas** |
|---|---|---|
| 11(5) | Copïau a chyhoeddi cyfarwyddydau cydymffurfio ac ad-dalu | Dweud sut a pha bryd y mae'n rhaid i CCAUC gyhoeddi unrhyw gyfarwyddydau cydymffurfio ac ad-dalu a rhoi copïau i Weinidogion Cymru. |
| 42(2)(d) | Gofyniad i roi hysbysiad rhybuddio | Caiff CCAUC roi hysbysiad neu gyfarwyddyd i sefydliad rheoleiddiedig o dan amgylchiadau penodol (adran 41). Os bydd CCAUC yn bwriadu gwneud hyn, rhaid iddo yn gyntaf roi hysbysiad rhybuddio i'r sefydliad rheoleiddiedig. Mae'r rheoliadau'n dweud erbyn pryd a sut y caiff sefydliad rheoleiddiedig gyflwyno sylwadau am hysbysiad neu'r cyfarwyddyd arfaethedig. |
| 43(c) | Gwybodaeth sydd i'w rhoi gyda hysbysiadau a chyfarwyddydau | Dweud yn benodol pa wybodaeth y mae'n rhaid ei chynnwys mewn datganiad gyda hysbysiad neu gyfarwyddyd perthnasol y bydd CCAUC yn ei roi i sefydliad rheoleiddiedig. |
| 44(3) | Adolygu hysbysiadau a chyfarwyddydau | Mae'r rheoliadau'n dweud ar ba seiliau y ceir gwneud cais am adolygiad a pha weithdrefn sydd i'w dilyn, gan gynnwys, ymhlith pethau, erbyn pryd mae gofyn gwneud cais am adolygiad a'r weithdrefn i'w dilyn pan gynhelir adolygiad. |

## Rheoliadau Addysg Uwch (Symiau) (Cymru) 2015

| **Deddf** | **Yn ymwneud â** | **Pwrpas** |
|---|---|---|
| 5(3) | Terfyn ffioedd | Rhaid i derfyn ffioedd a bennir mewn cynllun ffioedd a |

| | | |
|---|---|---|
| | | mynediad, neu a bennir yn unol â chynllun o'r fath, beidio â bod yn fwy na'r uchafswm a bennir. Mae'r Rheoliadau'n pennu'r uchafswm. |
| 5(9) | Ffioedd sy'n daladwy i bersonau eraill | Bydd y rheoliadau'n sicrhau na fydd y ffioedd sy'n daladwy gan bersonau cymhwysol yn uwch na therfyn y ffioedd pan fydd y ffioedd hynny'n daladwy i berson ar wahân i sefydliad rheoleiddiedig, lle bydd y person hwnnw'n darparu cwrs ar ran sefydliad rheoleiddiedig |

Tabl 2: Rhagor o Reoliadau

| Deddf | Yn ymwneud â | Pwrpas |
|---|---|---|
| Gwrthod cymeradwyo cynllun ffioedd a mynediad newydd; tynnu cymeradwyaeth i gynllun ffioedd a mynediad yn ôl | | |
| 37(7) | Hysbysiad ynghylch gwrthod cymeradwyo cynllun ffioedd a mynediad newydd | Gwneud darpariaethau ynglŷn â hysbysiad gan CCAUC i beidio â chymeradwyo cynllun ffioedd a mynediad newydd a'r materion y mae'n rhaid i CCAUC eu hystyried wrth benderfynu a ddylid rhoi hysbysiad neu dynnu hysbysiad yn ôl. |
| 38(2) | Dyletswydd i dynnu cymeradwyaeth yn ôl | Rhestru'r materion y mae'n rhaid i CCAUC eu hystyried wrth benderfynu a ddylid tynnu cymeradwyaeth i gynllun ffioedd yn ôl |
| 39(4) | Pŵer i dynnu cymeradwyaeth i gynllun ffioedd a mynediad yn ôl | Rhestru'r materion y mae'n rhaid i CCCAUC eu hystyried wrth benderfynu a ddylai roi hysbysiad o'i fwriad i dynnu cymeradwyaeth i gynllun ffioedd a mynediad yn ôl. |
| 40(2) | Cyhoeddi hysbysiad o dan Ran 5 | Dweud yn benodol sut ac erbyn pryd y mae'n rhaid i CCAUC gyhoeddi hysbysiadau gyda golwg ar adrannau 37, 38 neu 39. |
| Datganiad mewn cysylltiad â swyddogaethau ymyrryd CCAUC | | |
| 52(4) | Datganiad mewn cysylltiad â swyddogaethau ymyrryd | Gwneud darpariaeth ynghylch datganiad gan CCAUC, gan gynnwys ei baratoi, ei ffurf, a'i gynnwys a'r gofynion cyhoeddi ac ymgynghori |

## Rheoliadau Addysg Uwch (Dynodi Darparwyr Addysg Uwch) (Cymru) 2015

Efallai y byddai'r ymatebwyr yn hoffi cyfeirio at y Nodyn Esboniadol sydd gyda'r Rheoliadau drafft.

### Bwriad y polisi

Caiff Gweinidogion Cymru ddynodi darparwr addysg uwch elusennol yng Nghymru yn 'sefydliad' at ddibenion y Ddeddf ac unrhyw is-ddeddfwriaeth a gaiff ei gwneud o dani. Fel arall, ni fyddai darparwr o'r fath gan amlaf yn cael ei ystyried yn sefydliad ar ddibenion y Ddeddf. Gallai'r pŵer hwn, er enghraifft, gael ei roi ar waith i ddynodi darparwr nad yw'n gallu dyfarnu graddau ond sy'n darparu cyrsiau addysg uwch eraill ar lefel is ar y fframwaith credydau a chymwysterau. Neu, efallai y byddai'r pŵer yn cael ei roi ar waith i ddynodi darparwr sy'n gwmni elusennol cyfyngedig drwy warant ac sy'n darparu cyrsiau addysg uwch.

### Y Rheoliadau

Mae'r Ddeddf yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n cynnwys manylion ynglŷn ymgeisio am ddynodiad, dynodi a thynnu dynodiad yn ôl (gan gynnwys y materion sydd i'w hystyried) ac effaith tynnu dynodiad yn ôl.

Mae Rheoliad 2(1) yn ei gwneud yn ofynnol i ymgeisydd ddarparu gwybodaeth am y sefydliad. Mae Rheoliad 2(2) yn ei gwneud yn ofynnol i ymgeisydd ddarparu gwybodaeth a fydd yn sefydlu ei statws elusennol, gan gynnwys a yw'r elusen wedi'i chofrestru neu beidio. Mae Rheoliad 2(3) y sefydlu i ba raddau y mae ymgeisydd yn darparu addysg uwch yng Nghymru. Mae Rheoliad 3 yn gofyn i ymgeiswyr gyflwyno copi o'i brosbectws addysg uwch. Mae Rheoliad 4 yn gofyn am gopi o ddogfen lywodraethu ymgeisydd os nad yw'n elusen gofrestredig.

O dan Reoliad 5(1) gall Gweinidogion Cymru dynnu dynodiad yn ôl. O dan Reoliad 5(2) gellir hysbysu sefydliad ynghylch y rhesymau a phennu dyddiad ar gyfer tynnu dynodiad yn ôl. O dan Reoliad 5(3) rhestrir y materion y mae'n rhaid eu hystyried wrth dynnu dynodiad yn ôl.

Mae Rheoliad 6 yn sicrhau bod darparwr y tynnwyd ei ddynodiad yn ôl yn dal yn ddarostyngedig i'r adrannau hynny yn y Bil sy'n ymwneud â therfynau ffioedd (adrannau 10 -12), cyfarwyddydau yng nghyswllt methu â

chydymffurfio a gofynion cyffredinol cynllun a gymeradwywyd (adran 13), dilysrwydd contractau (adran 14) ac ansawdd (adran 26).

1 A oes unrhyw wybodaeth arall yn eich barn chi y dylid ei darparu gyda chais am ddynodiad?

2 A oes gennych unrhyw sylwadau am Reoliadau Addysg Uwch (Dynodi Darparwyr Addysg Uwch) (Cymru) 2015?

## Rheoliadau Addysg Uwch (Cyrsiau a Phersonau Cymhwysol) (Cymru) 2015

Efallai yr byddai'r ymatebwyr yn hoffi cyfeirio at y Nodyn Esboniadol sydd gyda'r Rheoliadau drafft.

**Bwriad y polisi**

Mae'r Rheoliadau'n pennu beth yw 'cyrsiau cymhwysol' a 'phersonau cymhwysol' at ddiben y terfyn ffioedd.

Rhaid i gynllun ffioedd a mynediad bennu terfyn ffioedd ar gyfer pob cwrs cymhwysol (neu ddarparu ar gyfer gwneud hynny). Ni chaiff y ffioedd dysgu y bydd sefydliadau'n eu codi ar bersonau cymhwysol sy'n dilyn cyrsiau cymhwysol fod yn uwch na'r terfyn ffioedd sydd wedi'i bennu yn y cynllun. Yn Rheoliadau Addysg Uwch (Symiau) (Cymru) 2015 mae Gweinidogion Cymru yn pennu'r terfynau ffioedd uchaf y gellir eu codi ar bersonau cymhwysol sy'n dilyn cyrsiau cymhwysol.

**Y Rheoliadau**

Mae'r Rheoliadau'n nodi'n benodol beth yw cyrsiau cymhwysol a phersonau cymhwysol.

Mae Rheoliad 3(1) yn nodi beth yw cyrsiau cymhwysol. Mae Rheoliad 3(2) a (3) yn disgrifio'r amgylchiadau lle nad yw cyrsiau'n gyrsiau cymhwysol.

Mae Rheoliad 4(1) yn nodi beth yw personau cymhwysol. Mae Rheoliadau 4(2) – 4(3) yn nodi'r personau na chânt eu trin yn bersonau cymhwysol ac mae rheoliadau 4(4) – 4(7) yn disgrifio eithriadau.

Mae Rheoliadau ynglŷn a chyrsiau a phersonau cymhwysol wedi'u gwneud o'r blaen. Efallai yr hoffai'r ymatebwyr nodi nad yw'r amserlen wedi newid (ac eithrio man ddiweddariadau).

Mae Llywodraeth Cymru yn sylweddoli y bydd sefydliadau rheoleiddiedig yn cynnig amrywiaeth o ddarpariaeth i ystod o ddysgwyr ac efallai na fydd y terfyn ffioedd a bennwyd bob tro briodol. Byddai'n dda gan Lywodraeth Cymru glywed o dan ba amgylchiadau y gellid ystyried eithriadau bwriadol i'r polisi o ran y terfyn ffioedd. Er enghraifft, ni fyddai Llywodraeth Cymru am gyfyngu ar hawl sefydliad rheoleiddiedig i osod y ffioedd a godir am ddarparu addysg uwch i gwmni.

3 A oes amgylchiadau penodol lle na ddylai’r terfyn ffioedd fod yn berthnasol i gyrsiau penodol a fyddai fel arall yn gwrs cymhwysol?

4 A oes gennych unrhyw sylwadau eraill am Reoliadau Addysg Uwch (Cyrsiau a Phersonau Cymhwysol) (Cymru) 2015?

## Rheoliadau Addysg Uwch (Cynlluniau Ffioedd a Mynediad) (Cymru) 2015

Efallai y byddai'r Ymatebwyr yn hoffi cyfeirio at y Nodyn Esboniadol sydd gyda'r Rheoliadau drafft.

### Bwriad y polisi

Mae'r Rheoliadau'n darparu ar gyfer cynnwys, cymeradwyo, cyhoeddi ac amrywio'r cynlluniau ffioedd a mynediad.

Os cymeradwyir cynllun ffioedd a mynediad, bydd cyrsiau sefydliad yn cael eu dynodi'n awtomatig at ddiben cymorth i fyfyrwyr. Y bwriad yw gwarchod buddiannau myfyrwyr drwy sicrhau bod cyn lleied o berygl a phosibl i sefydliad wynebu problemau ariannol a allai effeithio ar ddarparu cyrsiau, a thrwy sicrhau bod ansawdd y ddarpariaeth yn ddigonol.

Bydd gofyn i ymgeiswyr bennu amcanion ar gyfer hybu cyfle cyfartal ac addysg uwch yn eu cynllun ffioedd a mynediad. Ymhlith pethau eraill, bydd hyn yn cynnwys pennu pa gyfran o'r ffioedd a gaiff ei gwario ar yr amcanion hyn. At hynny, rhaid i gynllun ffioedd a mynediad gynnwys darpariaethau sy'n ei gwneud yn ofynnol i gorff llywodraethu sefydliad gymryd camau penodol, neu sicrhau bod camau penodol yn cael eu cymryd. Mae hyn yn cynnwys denu ceisiadau gan fyfyrwyr sy'n aelodau o grwpiau sydd heb eu gynrychiolaeth ddigonol a'u cadw.

### Y Rheoliadau

Mae Rheoliad 3 yn dweud bod yn rhaid i gais am gynllun ffioedd a mynediad gynnwys gwybodaeth am hyfywedd ariannol, trefniadau rheoli ariannol ac ansawdd y ddarpariaeth yn y sefydliad sy'n gwneud cais. Mae Rheoliad 3(a) yn mynnu bod sefydliad sy'n gwneud cais am gymeradwyo'i cynllun ffioedd a mynediad yn dangos ei fod yn ariannol hyfyw. Nid yw'r rheoliad yn manylu ynghylch yr hyn y dylid ei ddarparu ar gyfer CCAUC. Mae dau reswm dros hyn:

- Rydym yn gwybod beth yw sefyllfa ariannol sefydliadau yng Nghymru sy'n cael arian gan CCAUC drwy'r gweithgarwch rheoleiddio presennol. Nid ydym yn credu y byddai o unrhyw fudd inni newid y gallu a'r hyblygrwydd sydd gan CCAUC eisoes i asesu materion ariannol mewn ffordd deg a rhesymol drwy bennu eto pa wybodaeth y dylid ei darparu yn y Rheoliadau hyn; ac

- Mae'n sicrhau bod gan CCAUC a'r sefydliadau rheoleiddiedig yr hyblygrwydd o hyd i ymateb i newidiadau ym maes arferion cyfrifyddu ac yn yr amgylchedd ariannol.

Mae Rheoliadau 4, 5 a 6 yn rhestru'r materion hynny y mae'n rhaid i gynllun ffioedd a mynediad eu cynnwys. Mae Rheoliad 5(a) yn mynnu bod yn rhaid i gynllun ffioedd a mynediad restru amcanion ynglŷn â hybu cyfle cyfartal ac addysg uwch. Mae Rheoliad 6 yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliad gynnwys darpariaethau yn ei gynllun ffioedd a mynediad am y camau y bydd yn eu cymryd (neu'n sicrhau eu bod yn cael eu cymryd) gyda golwg ar agweddau ar hybu cyfle cyfartal.

Yn Rheoliad 7 rhestrir y materion y mae'n rhaid i CCAUC eu hystyried wrth benderfynu a ddylid cymeradwyo ynteu wrthod cais am gymeradwyo cynllun ffioedd a mynediad.

Mae Rheoliad 7(c) yn ei gwneud yn ofynnol i CCAUC ystyried y ffioedd sy'n daladwy gan bersonau cymhwysol ar gyrsiau cymhwysol wrth benderfynu a ddylid cymeradwyo ynteu wrthod cynllun ffioedd. Pwrpas hyn yw ei gwneud yn bosibl asesu a yw amcanion yr ymgeisydd ar gyfer hybu cyfle cyfartal ac addysg uwch yn ddigonol ac ystyried lefel y ffioedd y mae'n bwriadu eu codi.

Mae Rheoliad 7(d) yn ei gwneud yn ofynnol i CCAUC ystyried cyfran incwm y ffioedd sy'n deillio o bersonau cymhwysol sy'n dilyn cyrsiau cymhwysol y mae'r sefydliad yn bwriadu ei buddsoddi i hybu cyfle cyfartal ac addysg uwch. Pwrpas hyn yw ei gwneud yn bosibl asesu a yw'r sefydliad wedi dyrannu adnoddau digonol i gyflawni ei amcanion. Byddai Gweinidogion Cymru fel rheol yn disgwyl i sefydliadau sy'n cynnig codi ffioedd uwch ddarparu rhagor er mwyn hybu cyfle cyfartal ac addysg uwch.

Mae Rheoliad 8 yn pennu'r trefniadau y mae'n rhaid eu gwneud i gyhoeddi cynllun a gymeradwywyd er mwyn iddo fod ar gael yn hwylus i fyfyrwyr a darpar fyfyrwyr.

Mae Gweinidogion Cymru'n dymuno caniatáu i sefydliad rheoleiddiedig allu amrywio cynllun ffioedd a mynediad a gymeradwywyd petai angen. Mae Rheoliad 9 yn caniatáu ar gyfer amrywio cynllun ffioedd a mynediad.

5 A ydych yn meddwl y dylai'r Rheoliadau nodi'n fwy penodol yr hyn y dylid ei gynnwys mewn cynllun ffioedd a mynediad o ran hybu addysg uwch? Beth arall y gellid ei gynnwys?

6 A oes gennych unrhyw sylwadau eraill am Reoliadau Addysg Uwch (Cynlluniau Ffioedd a Mynediad ) (Cymru) 2015?

# Rheoliadau Addysg Uwch (Cynlluniau Ffioedd a Mynediad) (Hysbysiadau a Chyfarwyddydau) (Cymru) 2015

Efallai yr byddai'r ymatebwyr yn hoffi cyfeirio at y Nodyn Esboniadol sydd gyda'r Rheoliadau drafft.

**Bwriad y polisi**

Mae Rhan 6 o'r Ddeddf yn ymdrin â 'hysbysiadau a chyfarwyddydau' gan CCAUC. Caiff CCAUC roi hysbysiadau a chyfarwyddydau o dan yr amgylchiadau a restrir yn y Ddeddf. Mae'r Rheoliadau'n nodi'r weithdrefn i'w dilyn pan fydd CCAUC yn bwriadu rhoi hysbysiad neu gyfarwyddyd penodol.

Mae'r Rheoliadau'n rhestru'r weithdrefn ar gyfer cyflwyno sylwadau am hysbysiad neu gyfarwyddyd penodol, y wybodaeth y mae'n rhaid ei rhoi gyda hysbysiad neu gyfarwyddyd, ar ba sail y caiff rhywun wneud cais am adolygu hysbysiad neu gyfarwyddyd, beth yw'r weithdrefn, a beth mae'n rhaid i CCAUC ei wneud gyda chanlyniadau unrhyw adolygiad.

**Y Rheoliadau**

Mae Rheoliad 3 yn ei gwneud yn ofynnol i CCAUC ddarparu copi o gyfarwyddyd cydymffurfio ac ad-dalu (a roddir yng nghyswllt adran 11 o'r Ddeddf) i Weinidogion Cymru a'i gyhoeddi am gyfnod ar ei wefan.

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i CCAUC roi hysbysiad rhybuddio i gorff llywodraethu os yw'n bwriadu rhoi hysbysiadau neu gyfarwyddydau penodol (a restrir yn adran 41(1)). Mae Rheoliad 4 yn dweud yn benodol sut mae cyflwyno sylwadau ac erbyn pryd.

Mae Rheoliad 5 yn dweud pa bryd y dylid trin hysbysiad neu gyfarwyddyd yn hysbysiad a roddwyd.

Pan fydd CCAUC yn rhoi hysbysiad neu gyfarwyddyd, y bwriad yw bod yn rhaid iddo roi gwybodaeth benodol i'r sefydliad rheoleiddiedig sy'n galluogi'r sefydliad hwnnw i ddeall pam mae'r hysbysiad neu'r cyfarwyddyd wedi'i roi iddo a sut mae gwneud cais am adolygiad. Mae Rheoliad 6 yn rhestru'r wybodaeth y mae'n rhaid i CCAUC ei chynnwys mewn datganiad (yn ogystal â'r wybodaeth a restrir yn y Ddeddf). Mae Rheoliad 7 yn  dweud ar ba sail y caiff sefydliad rheoleiddiedig wneud cais am adolygiad ac mae rheoliad 8 yn egluro'r weithdrefn ar gyfer gwneud hynny.

Cynlluniwyd y weithdrefn adolygu er mwyn iddi fod yn drwyadl ac yn dryloyw. Bwriedir i'r weithdrefn yn rheoliad 9 sicrhau y bydd gan y panel o'r cychwyn i) yr hysbysiad neu'r cyfarwyddyd a rhesymau CCAUC dros ei roi a ii) rhesymau'r sefydliad rheoleiddiedig dros wneud cais am adolygiad. Caiff y panel adolygu ofyn am ragor o wybodaeth gan CCAUC a/neu'r sefydliad rheoleiddiedig i lywio'r adolygiad. Rhaid rhoi copi o unrhyw gais i'r corff arall, yn ogystal â'r wybodaeth a geir yn yr ymateb.

Ystyriwyd cynnwys cyfle i ymateb i unrhyw dystiolaeth bellach. Nid yw cyfle o'r fath wedi'i gynnwys yn y Rheoliadau drafft oherwydd dylai'r weithdrefn fod yn ddigon i sicrhau bod modd i'r panel adolygu'r ffeithiau ar sail gwybodaeth heb gael rhagor o fanylion.

Mae Rheoliad 10 yn dweud beth y mae'n rhaid i CCAUC ei wneud gyda chanfyddiadau'r panel, ac erbyn pryd.

Dylid tynnu sylw'n benodol at y canlynol:

- Mae nifer o reoliadau (3, 4, 8(a), 9(4) a 10(2)) yn pennu'r amserlenni y dylid cadw atynt mewn gweithdrefnau penodol;
- Mae Rheoliad 6 yn cyfeirio at y wybodaeth y mae'n rhaid i CCAUC ei rhoi gyda datganiad;
- Mae Rheoliad 7 yn rhestru ar ba seiliau y caiff sefydliad rheoleiddiedig wneud cais am adolygiad;
- Mae Rheoliad 9 yn ymwneud â nifer o faterion sy'n gysylltiedig ag adolygu hysbysiad neu gyfarwyddyd; ac
- Mae Rheoliad 10 yn cyfarwyddo CCAUC i gymryd camau penodol ar ól cael adroddiad y panel.

7 A oes digon o amser wedi'i ganiatáu ar gyfer y gwahanol brosesau?

8 A yw'r wybodaeth y mae'n rhaid ei chynnwys gyda hysbysiad neu gyfarwyddyd yn ddigonol? A oes unrhyw wybodaeth arall yn eich barn chi y dylid ei chynnwys gyda hysbysiad neu gyfarwyddyd?

9 A ydych yn cytuno bod y seiliau ar gyfer cynnal adolygiad yn ddigonol i ganiatáu her resymol?

10 A wnaiff gweithdrefn yr adolygiad gyflawni'r amcan o fod yn dryloyw gan sicrhau bod digon o wybodaeth ar gael?

| | |
|---|---|
| 11 | A oes gennych unrhyw sylwadau eraill am Reoliadau Addysg Uwch (Cynlluniau Ffioedd a Mynediad) (Adolygu, Hysbysiadau a Chyfarwyddydau) (Cymru) 2015? |

# Rheoliadau Addysg Uwch (Symiau) (Cymru) 2015

Efallai yr hoffai'r ymatebwyr gyfeirio at y Nodyn Esboniadol sydd gyda'r Rheoliadau drafft.

## Bwriad y polisi

Bydd Gweinidogion Cymru yn pennu terfyn uchaf ar gyfer y ffioedd y caiff sefydliadau eu codi ar bersonau cymhwysol sy'n dilyn cyrsiau cymhwysol. Ynghyd â rhoi cymorth ariannol i dalu'r ffi, bwriad hyn yw sicrhau bod pobl yn gallu fforddio addysg uwch.

Mae'r Ddeddf yn dweud y bydd terfyn uchaf ar gyfer ffioedd yn cael ei gynnwys mewn cynllun ffioedd a mynediad. Bydd y terfyn hwn yn berthnasol i bersonau cymhwysol sy'n dilyn cyrsiau cymhwysol a ddarperir gan sefydliadau rheoleiddiedig. Rhaid i bob sefydliad sy'n dymuno cael dynodi ei gyrsiau'n awtomatig at ddibenion cymorth i fyfyrwyr gael cynllun ffioedd a mynediad a gymeradwywyd ar waith.[3] Ni chaiff y ffioedd ar gyfer pob cwrs cymhwysol y mae'n rhaid i sefydliadau eu pennu (neu ddarparu ar gyfer eu pennu) mewn cynllun ffioedd a mynediad fod yn fwy na'r uchafswm hwn.

Er mwyn gwarchod buddiannau myfyrwyr sy'n astudio o dan ryw drefniadau 'partneriaeth' neu 'freiniad', mae'r Rheoliadau'n cyfeirio at drin sefyllfaoedd lle bydd y ffioedd sy'n daladwy gan y myfyriwr i sefydliad (yn y Rheoliadau, 'person') a hwnnw heb fod yn sefydliad rheoleiddiedig, ond sy'n darparu'r cwrs ar ran y sefydliad rheoleiddiedig, fel petaent yn cael eu talu i'r sefydliad rheoleiddiedig. Bwriad hyn yw sicrhau nad oes modd ochrgamu'r terfyn ffioedd[4].

## Y Rheoliadau

Mae Rheoliadau 3 – 6 y pennu uchafswm y ffioedd ar gyfer gwahanol gyrsiau.

Mae Rheoliad 7 yn dweud y bydd ffioedd a delir i berson am gwrs a gynigir gan y person hwnnw ar ran sefydliad rheoleiddiedig yn cael eu trin fel petaent yn cael eu talu i'r sefydliad rheoleiddiedig ei hun.

---

[3] Yn ystod y cyfnod pontio, bydd cyrsiau'n dal i gael eu dynodi'n unol â Rheoliadau Addysg (Cymorth I Fyfyrwyr) (Cymru) 2015.

[4] Dylid nodi y bydd hyn yn berthnasol yn ystod y cyfnod pontio i gyrsiau y gellid eu dynodi o dan reoliad 5(1) o Reoliadau (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2015, sydd ar hyn o bryd wedi'i gyfyngu i gyrsiau sy'n cael eu darparu gan ddarparwyr a ariennir o'r pwrs cyhoeddus. Bydd hyn yn cael ei gyfyngu i ddarparwyr a ariennir o'r pwrs cyhoeddus ar ran darparwyr sy'n dod o dan adran 10 o'r Ddedf.

12 A oes gennych unrhyw sylwadau am Reoliadau Addysg Uwch (Symiau) (Cymru) 2015?

# Ymgynghori ynglŷn â materion eraill

## Cefndir

Mae Rhan 5 o'r Ddeddf yn dweud y caiff CCAUC roi hysbysiad i gymeradwyo cynllun ffioedd a mynediad newydd (adran 37) ac i dynnu cymeradwyaeth yn ôl ar gyfer cynllun ffioedd a mynediad (adran 39). Mae hefyd yn rhoi dyletswydd ar CCAUC i dynnu cymeradwyaeth ar gyfer cynllun ffioedd a mynediad yn ôl o dan amgylchiadau penodol (adran 38). Rhaid cyhoeddi hysbysiadau o'r fath (adran 40). Gellir gwneud rheoliadau ynglŷn â nifer o faterion.

Mae Gweinidogion Cymru'n bwriadu gwneud rheoliadau rywbryd yn y dyfodol ond maent am bwyso a mesur barn pobl am agweddau penodol cyn gwneud hynny, yn enwedig y 'materion' y gallai'r rheoliadau ei gwneud yn ofynnol i CCAUC eu hystyried wrth benderfynu. Caiff Gweinidogion Cymru ymgynghori ynghylch unrhyw reoliadau drafft.

Mae Adran 52 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i CCAUC gyhoeddi 'datganiad o swyddogaethau ymyrryd'; datganiad sy'n dweud sut y maent yn bwriadu rhoi'r swyddogaethau sydd wedi'u rhestru yn adran 52(5) o'r Ddeddf ar waith. Caiff y rheoliadau wneud darpariaethau ynglŷn â materion penodol.

Nid yw'n fwriad gan Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ynglŷn â'r materion hyn ar hyn o bryd ond maent yn dymuno clywed barn pobl am y safbwynt hwn.

## Rhan 5 – Cynlluniau ffioedd a mynediad: tynnu cymeradwyaeth yn ôl, etc.

*Adran 37 – Hysbysiad i wrthod cymeradwyo cynllun ffioedd a mynediad newydd*

Mae Adran 37 yn galluogi CCAUC i roi hysbysiad i wrthod cynllun ffioedd a mynediad newydd o dan amodau penodol. Mae Adran 37(3) yn rhestru'r amodau hyn:

> *37(3) Yr amodau yw bod corff llywodraethu'r sefydliad wedi methu â chydymffurfio —*
>
> *(a) ag adran 10(1) (dyletswydd i sicrhau nad yw ffioedd cwrs rheoleiddiedig yn mynd uwchlaw'r terfyn ffioedd cymwys),*
> *(b) â gofyniad cyffredinol yng nghynllun y sefydliad a gymeradwywyd,*
> *(c) cyfarwyddyd o dan adran 13 (cyfarwyddydau mewn cysylltiad â*

*methiant i gydymffurfio â gofynion cyffredinol cynllun a gymeradwywyd),*
*(d) â chyfarwyddyd o dan adran 19 (cyfarwyddydau mewn cysylltiad ag ansawdd annigonol), neu*
*(e) â chyfarwyddyd o dan adran 33 (cyfarwyddydau mewn cysylltiad â methiant i gydymffurfio â'r Cod).*

Hysbysiad i wrthod cymeradwyo cynllun ffioedd a mynediad newydd yw un o'r ystod o sancsiynau a restrir yn y Bil. Os rhoddir hysbysiad sy'n gwrthod cymeradwyo, bydd y sefydliad rheoleiddiedig yn gwybod na fyddai myfyrwyr newydd yn gymwys i gael cymorth pan ddeuai ei gynllun ffioedd a mynediad cyfredol i ben.

Mae tri bwriad i hyn: 1) rhoi arwydd cryf i'r sefydliad nad yw ei ymddygiad wrth beidio â chydymffurfio â'r materion yn 37(3) yn dderbyniol 2) gwarchod arian cyhoeddus, drwy gyfyngu ar ragor o wariant, a gwarchod enw da addysg uwch yng Nghymru a 3) rhoi cyfle i'r sefydliad gywiro methiannau cyn cyfnod y cynllun ffioedd a mynediad nesaf.

Mae Adran 37(7) yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaethau ynglŷn â hysbysiadau mewn rheoliadau. Mae hyn yn cynnwys 1) y cyfnod a bennir mewn hysbysiad pan na fydd CCAUC yn cymeradwyo cynllun ffioedd a mynediad, 2) y materion i'w hystyried gan CCAUC wrth benderfynu a ddylid rhoi hysbysiad o'r fath neu dynnu hysbysiad yn ôl a 3) y weithdrefn i'w dilyn os tynnir hysbysiad o'r fath yn ôl.

Ar hyn o bryd, rhagwelir y bydd y rheoliadau'n sefydlu mai'r cyfnod a gaiff ei bennu mewn hysbysiad fydd blwyddyn ar y mwyaf.

Caiff y rheoliadau bennu'r materion i'w hystyried gan CCAUC wrth benderfynu a ddylid rhoi hysbysiad.

Caiff y rheoliadau bennu'r materion i'w hystyried gan CCAUC wrth benderfynu a ddylid rhoi hysbysiad neu dynnu hysbysiad yn ôl. Bwriedir i hysbysiad sicrhau bod methiannau'n cael sylw. Y gofyniad sylfaenol ar gyfer tynnu hysbysiad yw bod y methiant wedi'i gywiro. Nid oeddem yn credu bod unrhyw faterion eraill y dylid rhoi sylw iddynt.

Bwriad y weithdrefn y dylid ei dilyn wrth dynnu hysbysiad yn ôl (37 (8) (c)) yw bod y sefydliad a Gweinidogion Cymru yn cael eu hysbysu ar yr un pryd a bod yr hysbysiad yn cael ei gyhoeddi ar wefan CCAUC o fewn cyfnod byr.

| |
|---|
| 13 Pa faterion y gallai fod gofyn i CCAUC eu hystyried wrth benderfynu rhoi hysbysiad neu dynnu hysbysiad yn ôl? |

14 A oes gennych unrhyw sylwadau eraill?

*Adran 38 – Dyletswydd i dynnu Cymeradwyaeth yn ôl*

Mae'n ddyletswydd ar CCAUC i dynnu cymeradwyaeth i gynllun ffioedd a mynediad yn ôl os na fydd y sefydliad rheoleiddiedig yn dod o dan adran 2(3) o'r Ddeddf bellach h.y. nad yw'n elusen sy'n darparu addysg uwch yng Nghymru.

Mae Adran 38(2) yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau am y materion i'w hystyried a'r weithdrefn i'w dilyn wrth gymeradwyo cynllun ffioedd a mynediad. Mae Adran 38(3) yn dweud y caiff rheoliadau a wneir o dan isadran (3) bennu'r weithdrefn y mae'n rhaid i CCAUC ei dilyn. Mae hynny'n cynnwys diwygio, rhoi ar waith neu addasu'r gofynion yn adrannau 40 i 43 at ddibenion yr adran hon.

Ar hyn o bryd, nid yw'n fwriad i'r rheoliadau ddarparu ar gyfer ystyried unrhyw faterion eraill

Efallai y byddai'n briodol rhoi adrannau 42 – 43 ar waith. Byddai hynny'n rhoi cyfle i sefydliad a gaiff hysbysiad tynnu yn ôl gyflwyno sylwadau. Mae'n llai clir a ddylid rhoi adran 44 ar waith; mae'r ddyletswydd i dynnu hysbysiad yn ôl wedi'i seilio ar amodau clir ac nid yw'n fwriad ar hyn o bryd wneud rheoliadau ynglŷn â materion eraill (y gallai adolygiad fynd i'r afael â hwy).

15 A ydych yn cytuno y dylai sefydliadau rheoleiddiedig allu cyflwyno sylwadau am hysbysiad? A ydych yn meddwl bod angen proses adolygu neu y byddai hynny'n ddymunol gyda golwg ar hysbysiad?

16 A oes gennych unrhyw sylwadau eraill?

*Adran 39 – Pŵer i dynnu cymeradwyaeth yn ôl*

Caiff CCAUC dynnu'n ôl ei gymeradwyaeth i'r cynllun ffioedd a mynediad drwy roi hysbysiad o dan amodau penodol (adran 39(2); isod).

*39(2) Yr amodau yw—*

*(a) bod corff llywodraethu'r sefydliad wedi methu'n fynych â chydymffurfio ag adran 10(1) (dyletswydd i sicrhau nad yw ffioedd cwrs rheoleiddiedig yn mynd uwchlaw'r terfyn ffioedd cymwys) neu wedi methu â chydymffurfio â chyfarwyddyd cydymffurfio ac ad-dalu,*
*(b) bod y corff llywodraethu wedi methu'n fynych â chydymffurfio â gofynion cyffredinol cynllun y sefydliad a gymeradwywyd neu wedi methu â chydymffurfio â chyfarwyddyd o dan adran 13 (cyfarwyddydau mewn cysylltiad â methiant i gydymffurfio â gofynion cyffredinol cynllun a gymeradwywyd),*
*(c) bod ansawdd yr addysg a ddarperir gan neu ar ran y sefydliad yn ddifrifol o annigonol, neu*
*(d) bod methiant difrifol wedi bod gan gorff llywodraethu'r sefydliad i gydymffurfio â'r Cod*.

Mae'r bwriad yn debyg i'r bwriad ar gyfer gwrthod cymeradwyo cynllun ffioedd a mynediad newydd: 1) rhoi arwydd cryf i'r sefydliad fod ei ymddygiad wrth beidio â chydymffurfio â'r materion yn 39(2) yn annerbyniol a 2) gwarchod arian cyhoeddus, drwy gyfyngu ar ragor o wariant, a gwarchod enw da addysg uwch yng Nghymru. Ni cheir trin sefydliad fel petai wedi methu â chydymffurfio â gofyniad cyffredinol. Mae Adran 39(3) yn dweud, gyda golwg ar 39(2), os yw HEFCW yn fodlon bod y corff llywodraethu wedi cymryd pob cam rhesymol i gydymffurfio â gofyniad cynllun a gymeradwywyd, na cheir trin y corff llywodraethu hwnnw fel petai wedi methu â chydymffurfio â gofyniad cyffredinol.

Mae Adran 39(4) yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau am y materion y mae gofyn i CCAUC eu hystyried wrth benderfynu a ddylid rhoi hysbysiad i dynnu cymeradwyaeth yn ôl neu beidio.

17 Pa faterion y gallai fod gofyn i CCAUC eu hystyried wrth benderfynu pa bryd i roi hysbysiad.?

18 A oes gennych unrhyw sylwadau eraill?

*Adran 40 – Cyhoeddi etc. hysbysiad*

Mae Adran 40(1) yn dweud bod yn rhaid i CCAUC roi copi o unrhyw hysbysiad a roddir yng nghyswllt yr uchod i Weinidogion Cymru a chyhoeddi'r hysbysiad. Mae Adran 40(2) yn caniatáu ar gyfer gwneud rheoliadau yng nghyswllt hyn.

Bwriad y weithdrefn a bennir yw bod y sefydliad a Gweinidogion Cymru yn cael eu hysbysu ar yr un pryd a bod yr hysbysiad yn cael ei gyhoeddi ar wefan CCAUC o fewn cyfnod byr.

19 A oes gennych unrhyw sylwadau?

## Adran 52 – Datganiad ynglŷn â swyddogaethau ymyrryd

Rhaid i CCAUC baratoi datganiad, ymgynghori yn ei gylch a'i gyhoeddi. Rhaid i'r datganiad ddweud sut y mae'n bwriadu rhoi ei swyddogaethau ymyrryd (a restrir yn adran 52(5)) ar waith. Rhaid iddo adolygu'r datganiad hwn yn barhaus ac fe gaiff ei ddiwygio os bydd yn meddwl bod angen gwneud hynny. Mae Adran 52(4) yn golygu bod modd gwneud rheoliadau sy'n darparu ar gyfer paratoi'r datganiad hwn, gan gynnwys ei ffurf a'i gynnwys, ei gyhoeddi ac ymgynghori yn ei gylch.

Ni ragwelir y bydd unrhyw reoliadau'n cael eu gwneud ar hyn o bryd. Bydd canllawiau manwl yn cael eu paratoi a'u rhoi i CCAUC a rhaid iddo yntau, yn ei dro, ymgynghori ynglŷn â datganiad.

20 A ydych yn cytuno â'r bwriad o beidio a gwneud rheoliadau ar hyn o bryd? Os nad ydych, pa bynciau y dylai rheoliadau fynd i'r afael â hwy yn eich barn chi?

21 A oes gennych unrhyw sylwadau eraill?